

Agor y Llyfr

Erbyn hyn, trefnwyd i 'Agor y Llyfr' gael ei gynnal yn Ysgol Gwau Gynfi, Deiniolen fore Gwener, Tachwedd 13. Os cofiwch, cynllun yw hwn i dim o bobl ddarllen storïau o'r Beibl i blant mewn ysgolion cynradd. Byddwn yn mynd i'r ysgol ar gyfer y gwasanaeth boreol am 9.10 o'r gloch.

Mae croeso i eraill ymuno â ni wrth gwrs. Rhowch wybod os ydych yn awyddus i helpu neu i wybod mwy.

Os na fedrwch ddod efo ni i'r ysgol mi fedrwch fod yn rhan o'r gwaith trwy weddio drosto. Cofiwch amdanom felly y bore hwnnw.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Hydref 18: Gwasanaethir mewn oedfaon Diolchgarwch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog, gyda rhai o'r aelodau a'r plant a'r ieuencid yn cymryd rhan yn oedfa'r hwyr.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Hydref 18: Oedfaon Diolchgarwch dan arweiniad Parti Bytholwyrdd

Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 11

5.00 p.m. - Cyfarfod Diolchgarwch yng ngofal yr aelodau

Hydref 18

Oedfaon Diolchgarwch
10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 25

5.00 p.m. - Y Parchg W R Williamns

am 10.00 o'r gloch a'r aelodau am 5.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 18: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Hydref 18: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch ac oedfa am 2.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg Eifion Williams, Llanfairfechan.

CARMEL

Nos Wener, Hydref 16: Cynhelir 'Dwylo Prysor' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 18: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Hydref 16: Cynhelir y Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Hydref 18

10.00 a.m. - Oedfa Parti Bytholwyrdd
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa Ddiolchgarwch

Hydref 11

10.30 a.m. - Oedfa Deulu - Gwasanaeth Diolchgarwch



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 653: Dydd Sul, 11 Hydref, 2015

Y diolch pennaf

Mae gwahanol gyfnodau wedi esgor ar wahanol draddodiadau mewn byd a betws. Mae hynny'n sicr yn wir am yr Ŵyl Ddiolchgarwch, ac mae'r rhan fwyaf ohonom wedi gweld sawl ffordd o ddathlu'r ŵyl hon yn ein capeli a'n heglwysi dros y blynyddoedd.

I lawer o bobl yr ardaloedd hyn mae'r Diolchgarwch yn annatod glwm wrth y trydydd dydd Llun ym mis Hydref a'r arferiad o gael gwyliau o'r Chwarel er mwyn cynnal oedfaon Diolchgarwch. Cyfarfodydd Gweddi oedd yr oedfaon hynny fore, pawns a nos, â llawer o eglwysi'n ymfrostio nad oedd angen i neb gymryd rhan mewn mwy nag un o'r oedfaon gan fod mwy na digon o bobl ar gael.

Parodd y drefn honno am flynyddoedd, ond o dipyn i beth diflannodd yr arfer mewn llawer man. Un newid amlwg a welwyd mewn nifer o eglwysi oedd symud yr ŵyl i'r Sul. Daeth oedfaon plant yn rhan bwysig o'r dathliadau hefyd i gyfoethogi'r ŵyl mewn llawer man.

Un o'r datblygiadau mwy diweddar yw'r arfer o gynnal oedfa bregethu yn lle'r cyfarfod gweddi traddodiadol. Nid bod hwn yn ddatblygiad diweddar iawn chwaith. Mi bregethais i gyntaf mewn oedfa Ddiolchgarwch yng nghapel Abergwyngregyn yn 1976 pan oeddwn yn y coleg ym Mangor. Mae'n amlwg fod oedfaon pregethu yn rhan o'r ŵyl ers o leiaf ddeugain mlynedd.

Beth bynnag a ddaw o'r ŵyl, ac ym mha ffordd bynnag y bydd yn datblygu eto, does ond gobeithio y bydd yn dal i'n hatgoffa am ddaioni a gofal Duw ac yn aros yn gyfrwng i ni ddiolch iddo am ei haelioni a'i gynhaliadau i ni o ddydd i ddydd.

Wn i ddim beth oedd testun y bregeth yn Aber y noson honno. Yr un peth a gofias yw na ddywedwyd fawr ddim am y cynhaeaf! Yn ein sêl dros Iesu Grist a'r Efengyl, tueddu i anwybyddu pob sôn am gynhaeaf a chynhaliadau faterol Duw a wna'i amryw ohonom oedd yn y coleg gyda'n gilydd. Ac oedfa Ddiolchgarwch neu beidio, sôn a wnaem ni am waith achubol Duw yn ei Fab Iesu. Cyhoeddi'r Efengyl a wnaem gan bwysleisio mai Iesu Grist ei hun yw testun diolch pennaf pob Cristion. Yn aml iawn, brawddeg neu ddwy ar ddiwedd y bregeth fyddai ein hunig gyfeiriad at gynhaeaf a gwir bwrpas yr oedfa yr oeddem yn ei harwain.

Dros y blynyddoedd, mi sylweddolais i (a'r pregethwyr eraill hynny mae'n debyg) nad oedd peth felly yn gwbl addas, a dechrau sôn am gynhaliadau Duw ar y Diolchgarwch. Felly y dylai fod wrth gwrs. Ac eto, mi ddaliaf i greu fod yr hyn a gyhoeddwn yn Aber ym mis Hydref 1976 yn dal yn wir. Beth bynnag arall sydd gennym i ddiolch i Dduw amdano, prif destun ein diolch a'n mawl bob amser yw Iesu Grist, y Gwaredwr a'r Arglwydd a roddwyd i ni gan Dduw y Tad.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad heddiw.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch dan arweiniad aelodau'r eglwysi yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Am 5.00 o'r gloch cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch dan arweiniad y plant a'r ieuencid.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb arall sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd. Mae amryw ohonoch yn methu â dod i'r oedfaon a dymunwn adferiad buan i chi.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Rhiannon Evans, Stryd Newton a Mrs Gillian Williams, 19 Stryd Fawr, Llanberis yn y brofedigaeth o golli chwaer a modryb, Mrs Helen Lloyd, Stryd y Ffynnon, Llanberis yn ddiweddar. Bu farw Medi 13, yn 76 mlwydd oed.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Roma Griffith, 13 Garneddwen, Bethesda a fu farw ddydd Llun diwethaf, Hydref 5 yn 91 mlwydd oed. Aelod yng nghapel Siloh Tregarth oedd Mrs Griffith, ond cynhaliwyd ei hangladd yng nghapel Carmel, Llanllechid fore ddoe, ddydd Sadwrn, Hydref 10 dan arweiniad y Parchg Philip Barnett.

Bore Coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Hydref 13 er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Diolchgarwch

Bydd oedfaon Diolchgarwch eglwysi'r Ofalaeth yn cychwyn heddiw gydag oedfaon am 5.00 o'r gloch yn Neiniolen dan arweiniad rhai o'r aelodau ac yn Llanllechid yng ngofal yr ieuencid a phlant yr Ysgol Sul.

Bydd y cyfarfodydd Diolchgarwch yn para yn Neiniolen y Sul dilynol, Hydref 18 yn yr oedfa am 10.00 o'r gloch dan

arweiniad y Gweinidog a'r oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y gweinidog a rhai o'r plant a'r ieuencid.

Bydd oedfaon Diolchgarwch yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch y Sul nesaf. Aelodau Parti Bytholwyrdd fydd yn arwain oedfa'r bore a bydd oedfa'r hwyr yng ngofal rhai o'r aelodau. Bydd oedfa Ddiolchgarwch y plant yn ystod yr Oedfa Deulu y Sul wedyn, Hydref 25.

Bydd oedfa Ddiolchgarwch yng nghapel Bethlehem, Talybont dan arweiniad plant ac aelodau'r Ysgol Sul am 2.00 o'r gloch, ddydd Sul, Hydref 25.

Yr Henaduriaeth

Sôn am y 'Cyfarfod Misol' fyddai'r Presbyteriaid ar hyd y blynyddoedd. Ond erbyn hyn mae'r term hwnnw yn ddiystyr, yma yn Arfon beth bynnag, gan mai pedair gwaith y flwyddyn y cynhelir y cyfarfodydd bellach. Felly, sôn am 'Gyfarfod yr Henaduriaeth' a wneir erbyn hyn. Cynhelir y nesaf yng nghapel Seilo, Caernarfon ddydd Mawrth, Hydref 21 am 3.00 a 6.30 o'r gloch. Bydd blaenoriaid newydd yr Henaduriaeth yn cael eu hordeinio yn ystod yr oedfa am 6.30 o'r gloch.

Cyfarfod Chwarter

Bydd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Salem, Caernarfon am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Hydref 28.

Bydd y cyfarfod hwn yn cynnwys yr Oedfa Bregethu Flynyddol. Y Parchg Euros Jones, Llangefni fydd yn pregethu yn yr oedfa hon eleni.

Mae croeso cynnes i unrhyw un ddod i'r cyfarfod hwn. Os oes rhywun am ddod i'r oedfa yn unig, dowch erbyn 7.30 o'r gloch.

Dymuno'n dda

Dymuniadau gorau i Mr Dafydd Roberts, Capel Coch yn ei gartref newydd yn Dôl Eilian, Llanberis. Gobeithio y byddwch yn setlo yn fuan yno.

Dechreuadau

Cynhaliwyd cyfarfod 'Dechreuadau' dan arweiniad y Parchg Casi Jones, Clynnog, yn festri Bethlehem, Talybont ddydd Llun diwethaf. Roedd Casi wedi paratoi cinio i bawb, ac yr oedd yn braf iawn cael sgwrsio dros bryd bwyd cyn i ni drafod rhai o adnodau o drydedd bennod llythyr cyntaf Paul at y Cornithiaid.

Mae'r rhai sy'n dod i'r cyfarfodydd hyn yn aelodau ym Methlehem a Charmel a Chapel Coffa, Cyffordd Llandudno. Man cychwyn y drafodaeth oedd rhai o'r pethau yr oedd pawb yn eu hoffi am eu heglwys eu hunain. Mae'r trafodaethau yn fuddiol bob tro, a'r gymdeithas yn gynnes. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun, Tachwedd 9.

Cymdeithas Llanberis

Mae dyddiad cyfarfod cyntaf tymor newydd Cymdeithas Undebol Llanberis wedi ei newid. Fe'i cynhelir ym mis Tachwedd yn hytrach na mis Hydref.

Y dyddiad newydd yw nos Fawrth, Tachwedd 10, am 7.00 o'r gloch yn Capel Coch.

Annette Bryn Parri, Deiniolen fydd y gwestai yn y cyfarfod hwn hefyd. Mae croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod, yn cynnwys hen aelodau'r Gymdeithas ac unrhyw sydd am ddod atom i wrando ar Annette yn sgwrsio a chanu amrywiaeth o ganeuon ar y piano. Mae'n sicr o fod yn noson ddifyr a safonol. Dowch draw i fwynhau.